Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Catrin Owen**

**Caernarfon**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma’r archwiliad cyntaf ers cofrestru gyda AGC |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau’n Deg? | Na |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hybu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

**Crynodeb**

Mae plant yn hapus ac yn gyffyrddus yng ngofal y warchodwraig a'i chynorthwyes. Rhoddir cyfleoedd cyson ac effeithiol i'r plant wneud dewisiadau ynghylch pa adnoddau i'w defnyddio a pha weithgareddau i gymryd rhan ynddynt. Mae gan bob plentyn fondiau cryf a gwerth chweil gyda'r warchodwraig a'i cynorthwyes ac maent yn ymateb yn gadarnhaol bob amser i'w teimladau.

Mae'r warchodwraig a'i cynorthwyes yn brofiadol ac wedi cwblhau hyfforddiant priodol. Mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth gyson o'r prosesau a'r pwysigrwydd o gadw plant yn eu gofal yn ddiogel. Mae'r gwarchodwyr yn rheoli bron pob rhyngweithiad rhwng y plant yn effeithiol. Mae hi'n cynnig gweithgareddau gwerth chweil i'r plant yn yr ardal fewnol ac allanol. Mae'r warchodwraig yn hyrwyddo iechyd a lles y plant yn ei gofal yn gadarnhaol.

Mae gan y warchodwraig systemau trylwyr a chryf ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i blant. Mae'r rhain yn cynnwys asesiadau risg sy'n dda ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Mae hi yn adolygu a diweddaru ei pholisïau rheoleiddio gan ddatblygu rhai newydd yn ôl y gofyn. Mae gan blant fynediad at ystod o adnoddau ac offer sy'n briodol i'w hoedran.

Mae'r warchodwraig plant yn rheoli ei lleoliad yn fedrus ac yn llwyddiannus. Mae hi'n diweddaru ac yn cadw cofnodion mewn ffordd effeithiol. Mae'r warchodwraig plant yn adolygu ei gwasanaeth yn rheolaidd trwy drafod gyda'r plant a'u rhieni. Mae'n cydnabod ffyrdd o wella'r lleoliad i greu canlyniadau gwell i blant. Mae partneriaethau gyda rhieni yn gryf ac yn llwyddiannus.

| Llesiant | Da |
| --- | --- |

Mae'r plant yn y lleoliad yn hapus ac yn ymlaciol. Maent yn amlwg yn teimlo yn gyfforddus ac yn ddiogel gyda'r warchodwraig. Er enghraifft, mae plant yn hapus i sgwrsio gyda'r warchodwraig a mynegi eu syniadau am siapiau i'w torri allan, pa adnoddau i'w ddefnyddio a phryd maent eisiau byrbryd. O fewn yr awyrgylch hamddenol a ddarperir, mae gan blant berthnasedd cadarnhaol ac maent yn awyddus i rannu eu gweithgareddau gydag eraill. Er enghraifft, fe wnaethant gydweithio i adeiladu trac trên a chyd-chwarae gyda'r ceir bychan. Maent yn gwybod beth i'w ddisgwyl o'u hamser yng nghartref y warchodwraig. Mae trefn yn bwysig i'r plant megis pryd mae'n amser byrbryd neu pan maent eisiau cysgu.

Mae'r plant yn hyderus i fynegi eu hunain a gwneud ceisiadau am adnoddau gan eu bod yn gwybod y bydd y warchodwraig yn ymateb yn gadarnhaol. Er enghraifft, maent yn cael eu hannog i ddewis yr hyn maent am ei wneud nesaf ynghyd â dweud fod angen newid eu clwt. Mae'r plant hefyd yn mynegi pan fydd angen byrbryd arnynt. Mae bron pob rhyngweithiad rhwng plant a gwarchodwraig yn gryf ac yn werth chweil. Mae plant yn cymryd eu tro ac yn rhannu adnoddau yn ystod gweithgareddau. Mae'r warchodwraig yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn eistedd gyda'r plant ar eu lefel, gan ofyn cwestiynau perthnasol ac awgrymu syniadau. Mae'r plant yn ymateb yn gyson i'r cwestiynau. Er enghraifft, wrth gyfrif i fyny i 5 ac enwi anifeiliaid mewn lluniau.

Mae plant yn gwrando ac yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd, gan rannu adnoddau amrywiol a dilyn cyfarwyddiadau a cheisiadau gan y warchodwraig. Mae plant yn cael mwynhad yn y gweithgareddau a gynigir. Er enghraifft, buont yn siarad am y gwahanol anifeiliaid yn y llyfrau a pha siapiau i'w torri allan. Yn yr ardal allanol, gellir eu hannog i ddefnyddio'r holl adnoddau megis y gegin fwd, y beiciau a'r peli. Maent yn awyddus i rannu eu llwyddiannau gyda'r warchodwraig sy'n eu canmol yn gyson. Roedd plant yn rhydd i ddefnyddio'r adnoddau yn yr ystafell chwarae. Maent yn dyfalbarhau i gwblhau gweithgareddau am gyfnod o amser sy'n briodol i'w hoedran a datblygu eu chwarae a'u dychymyg eu hunain. Mae defnydd y plant o'r ardal awyr agored yn hyrwyddo datblygiad eu lles corfforol gan gynnwys defnyddio beiciau a threciau a ffrâm ddringo.

Mae gan blant fynediad i'r toiled ac fe'u hanogir i olchi eu dwylo ar ôl gweithgareddau. Mae plant yn cael eu hannog i fod yn annibynnol trwy ddewis pa adnoddau i'w defnyddio. Er hynny, mae cyfle amser cinio yn annog plant i fod yn fwy annibynnol ac i fwydo eu hunain. Maent yn gwbl ymwybodol o ble mae adnoddau'n cael eu storio ac yn gofyn yn hyderus am eitemau nad sydd o fewn eu gafael.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y warchodwraig a’i cynorthwyes ddealltwriaeth dda o weithdrefnau diogelu plant ynghyd â sut i gadw plant yn ddiogel. Wrth drafod y gweithdrefnau y byddai'n eu dilyn pe bai ganddi bryderon am blentyn yn ei gofal, roedd hi'n glir pwy ddylai gysylltu. Mae ei pholisi yn nodi'n glir sut i adnabod arwyddion a symptomau camdriniaeth, a gweithdrefnau i'w dilyn pan fo pryder neu honiad yn ei herbyn ei hun. Mae gweithdrefnau'r warchodwraig i sicrhau diogelwch plant yn gynhwysfawr, ac mae'n dangos mesurau hylendid effeithiol. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod plant yn golchi eu dwylo cyn byrbrydau ac ar ôl defnyddio'r toiled. Maent yn dilyn eu polisïau a'u gweithdrefnau mewn perthynas â newid clytiau a rheoli heintiau. Er enghraifft, defnyddir mat newid priodol, a gwaredir cewynnau. Mae’r warchodwraig yn gwneud defnydd llawn o Offer Diogelu Personol yn ystod newid clytiau ac yn golchi eu dwylo yn briodol. Mae'r warchodwraig a’i cynorthwyes wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf gorfodol, gan ei galluogi i ddelio â damweiniau yn effeithiol. Maent yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn fanwl gywir ac maent i gyd wedi'u llofnodi gan rieni a gofalwyr i ddangos tystiolaeth eu bod wedi eu hysbysu a’u cydnabod.

Mae'r warchodwraig yn darparu awyrgylch tawel a gofalgar i'r plant yn ei gofal. Mae hi'n cymryd rhan yn gyson mewn sgyrsiau a thrafodaethau gyda'r plant. Er enghraifft, "Wyt ti eisiau troi'r dudalen?” “Be sydd gyda ni fan hyn?” “Eliffant.” “Da iawn ti.” Mae ymddygiad yn bwysig ac mae hi'n atgyfnerthu ei bwysigrwydd mewn modd ymlaciol gyda'r plant yn gyson. Mae'r warchodwraig yn dilyn ei pholisi rheoli ymddygiad yn gyson i gefnogi plant. Er enghraifft, atgoffa plant am beidio eistedd ar silff ffenest isel. Enghraifft arall oedd wrth i blentyn chwarae gyda giât ddiogelwch - “Paid â chau'r giât neu bydd anti Cats yn sownd yn y gegin.” Er hynny, mae angen sicrhau ymddygiad priodol yn ystod amser bwyta gan sicrhau fod y plant yn eistedd ar ddodrefn ac yn cael eu hannog i fod yn annibynnol.

Mae'r warchodwraig yn bwydo'n ôl i rieni plant trwy drafodaethau dyddiol a thrwy negeseuon unigol ar ap priodol. Mae'r warchodwraig yn cynllunio gweithgareddau ar gyfer y plant yn seiliedig ar eu diddordebau a’u syniadau. Er enghraifft, hoffter o arbrofi gyda thwr neu siarad am fwydod, felly aethpwyd ati i chwilota amdanynt yn yr ardal allanol. Trwy arsylwadau, mae'n olrhain cynnydd a datblygiad plant. Er enghraifft, roedd arsylwadau'n cynnwys hoffterau, diddordebau, sgiliau i’w datblygu ac anawsterau. Mae’n cofnodi datblygiad plant ar sail y llwybr datblygu ac yn nodi llwyddiannau ar dudalen WAW. Mae'n cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) mewn ffordd sensitif ac ymatebol ac yn gweithio'n agos gyda rhieni ac asiantaethau perthnasol i greu profiadau gwell i bob plentyn.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae’r warchodwraig yn sicrhau bod yr Amgylchedd yn gynnes ac yn groesawgar ac yn darparu amgylchedd buddiol a gwerthfawr i blant chwarae a dysgu. Mae'r amgylchedd yn ddiogel, ac mae'r drysau'n cael eu cloi pan fydd plant yn bresennol. Maent yn cwblhau asesiadau risg sy’n amlinellu’n fras y camau i’w cymryd i leihau neu atal risg i blant. Maent yn sicrhau bod plant yn cael eu gorchwylio yn dda. Mae'r warchodwraig yn cynnal ymarferion tân rheolaidd i sicrhau bod plant yn gwybod sut i adael yr eiddo yn ddiogel os bydd argyfwng. Mae cofnodion effeithiol o'r driliau tân hyn gan gynnwys dyddiadau, amser i adael ac enwau plant sy'n bresennol. Ar ddiwrnod yr arolwg, roedd angen glanhau'r ardaloedd chwarae. Ers ein hymweliad, mae hi wedi cyflwyno tystiolaeth foddhaol i ddangos sut mae hi wedi mynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'r ystafelloedd chwarae a ddefnyddir yn gyfforddus ac yn caniatáu i blant wneud defnydd llawn ohonynt.

Mae'r ardal fewnol a’r ystafell bwrpasol sydd ar dir y lleoliad yn cynnig cyfleoedd priodol i gefnogi chwilfrydedd plant. Mae hefyd yn cynnig cyfleoedd i'r plant ddysgu trwy chwarae rôl, adeiladu a chelf a chrefft. Mae'r ystafell ychwanegol yn bwrpasol ac yn eang. Mae gan blant fynediad hawdd at ddewis da o deganau, adnoddau ac offer chwarae rôl. O dan arweiniad y warchodwraig, mae gan blant fynediad i'r ardal awyr agored ac mae’r adnoddau yn cael eu storio'n briodol. Mae'r adnoddau ar gael pan fydd plant yn treulio amser yn yr awyr agored. Mae'r ardal awyr agored wedi'i hamgáu gan ffensys ac mae'r warchodwraig yn sicrhau bod mesurau priodol wedi'u rhoi ar waith i gadw'r ardal hon yn ddiogel. Mae gan blant fynediad at adnoddau amrywiol fel beiciau a thryciau, blwch tywod a dodrefn priodol. Mae'r warchodwraig yn dilyn ei "Pholisi Anifeiliaid Anwes" ei hun sy'n nodi y bydd y cŵn mewn ardal oddi wrth y plant. Yn ystod yr arolygiad, roedd y cwn yn eu hardal eu hunain ac ni allai plant gael mynediad iddynt. Mae gan y warchodwraig drefniadau i blant gysgu yn yr ardal i lawr grisiau pan fo angen ac mae'n cynnal gwiriadau rheolaidd arnynt.

Mae'r warchodwraig yn darparu dewis amrywiol o adnoddau glân ac yn sicrhau eu bod yn cael eu cynnal a’u cadw'n dda. Mae'r rhain yn cynnwys blociau adeiladu pren, offerynnau cerdd, teganau mawr ac adnoddau celf a chrefft. Mae'r ystod o adnoddau a gynigir i blant yn dda ac yn briodol i'r plant sy'n derbyn gofal, Mae'r warchodwraig yn sicrhau bod gan blant fynediad gwerth chweil atynt. Mae'r adnoddau'n ysgogi, yn briodol i'w hoedran ac yn diwallu anghenion plant yn effeithiol. Gwelsom blant yn cyrchu'r rhan fwyaf o'r rhain yn annibynnol ac yn gofyn am rai a oedd yn cael eu storio allan o'u cyrraedd ar unwaith. Roedd ambell adnodd sy'n adlewyrchu ein cymdeithas amrywiol ac sy'n hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys llyfrau a doliau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r warchodwraig yn drefnus ac yn darparu gwasanaeth llwyddiannus a gwerthfawr. Mae hi'n ymateb yn gadarnhaol i awgrymiadau ar sut i wella'r gwasanaeth. Mae'r warchodwraig yn creu awyrgylch tawel a chadarnhaol yn y lleoliad. Mae'n cynnal ac yn rhannu datganiad o bwrpas cyfoes a chyson  sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir ac yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol. Mae gan y warchodwraig bolisïau cynhwysfawr. Mae hi'n cynnal y cofnodion gofynnol yn effeithiol gan gynnwys cofrestrau a ffurflenni damweiniau. Mae gan y warchodwraig ddogfennau car cyfredol ac mae wedi'i gofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Mae'r warchodwraig yn adolygu ei gwasanaeth yn rheolaidd. Fel rhan o'i adolygiad, mae hi'n gofyn am adborth gan rieni a phlant. Mae gwybodaeth a gasglwyd yn ei chefnogi i werthuso ei gwasanaeth, gan roi cyfle i dynnu sylw at gryfderau ac ystyried meysydd posibl i'w datblygu. Mae’n sicrhau fod yr holl wybodaeth cyflogaeth angenrheidiol wedi ei gasglu yn briodol gan gynnwys gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r warchodwraig yn deall yn llwyddiannus bwysigrwydd hyfforddiant rheolaidd a pharhau â'i datblygiad proffesiynol. Mae'n cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol a thrwy arfarniadau a goruchwyliaeth yn chwilio am gyfleoedd pellach i ddatblygu'r gynorthwyes. Mae gan bob aelod o'r cartref wiriadau'r DBS cyfredol, gyda system ar waith ar gyfer gwiriadau rheolaidd. Mae'r warchodwraig yn ymgysylltu'n llwyddiannus ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a sefydliadau eraill pan fo angen.

Mae'r warchodwraig yn sicrhau bod cyfathrebu â'r holl rieni a gofalwyr yn effeithiol ac yn werth chweil. Mae ganddi'r holl gontractau a chaniatâd perthnasol ac mae'n cadw'r holl wybodaeth berthnasol i ddiwallu anghenion unigol plant. Mae'r warchodwraig yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni trwy gyfathrebu llafar a negeseuon ar system ap pwrpasol yn ddyddiol. Mae rhieni a gofalwyr yn hapus iawn ac yn gadarnhaol am y lleoliad. Dywedon nhw wrthym, 'Mae’r lleoliad yn un hapus ac fel ail gartref' 'Mae ethos Gymraeg yno ac mae pob dogfen ar gael yn ddwyieithog,' ac 'Mae’n braf gweld ar yr ap be mae’r plant wedi bod yn ei wneud yn ystod y dydd.' Mae gan y warchodwraig gysylltiadau da â rhieni, ac mae hi'n ymateb yn gadarnhaol yn gyson i wybodaeth a chyngor a roddir iddi i wella lles plant ac i nodi eu hanghenion. Mae hi'n sicrhau, os bydd unrhyw bryderon yn codi am gynnydd neu ddatblygiad plentyn, bod gweithdrefnau clir ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth a darparu cymorth. Mae cyswllt da rhwng y warchodwraig a’r ysgol leol ac mae’n casglu plant oddi yno ar ddiwedd y sesiwn bore. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd i'r warchodwraig ddatblygu cadw cysylltiadau ag athrawon yr ysgol i gynorthwyo gyda phontio'r plant o un lleoliad i’r nesaf.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Lle byddwn yn nodi nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Argymhellion ar gyfer Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad (argymhellion) |
| Standard 7 - Opportunities for play and learning | Ensure the children have opportunities to develop their independence at snack time |
| Standard 12 - Food and drink | Ensure that snack times are arranged to provide sociable opportunities for children. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/08/2024